

Gall taliadau uniongyrchol a chyfraith cyflogaeth fod yn gymhleth iawn yn aml, a gall sefyllfa person fod yn wahanol iawn. Felly, nid yw bob amser yn bosib rhoi un ateb sy'n addas i bob sefyllfa. O ganlyniad, mae Cyngor Abertawe yn argymhell yn fawr eich bod chi'n ceisio cyngor ar sail unigol, yn enwedig ar gyfer achosion y mae angen cyngor ar gyfraith cyflogaeth arnynt. Mae'r isod at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig ac ni fwriedir iddo fod gyfwerth â chyngor cyfreithiol.

Mae gan yr holl gyflogwyr dan y cynllun taliadau uniongyrchol bolisi yswiriant personol ar waith. Dyma yswiriant arbenigol sy'n benodol ar gyfer cyflogwyr cynorthwywyr personol, a bydd gan bob deiliad polisi fynediad at gyngor a chefnogaeth 24 awr ar gyfer chyfraith cyflogaeth. I gael cyngor a chefnogaeth gyfreithiol am faterion sy'n ymwneud â chyfraith cyflogaeth, rydym yn eich cynghori i siarad â'ch darparwr yswiriant unigol a chysylltu â'r Tîm Byw'n Annibynnol os oes angen unrhyw gymorth. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt pob darparwr yswiriant ar waelod y ddogfen hon.

- ❖ Mae rhagor o arweiniad ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru <https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/defnyddio-taliadau-uniongyrchol-mewn-ffordd-hyblyg-yn-ystod-y-pandemig>
- ❖ Neu Wefan Llywodraeth y DU <https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response>

Gallwch gysylltu â'r Tîm Byw'n Annibynnol yn ystod oriau swyddfa rhwng 9.00am a 5.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni:

☎ 01792 636445

✉ [DPSupport@swansea.gov.uk](mailto:DPSupport@swansea.gov.uk)

## Frequently Asked Questions

### **C Ydyn ni'n parhau i dalu CPau os ydyn ni (fel teulu) yn penderfynu canslo shifftiau oherwydd hunanynysu?**

Mae'n dibynnu ar a yw'r CP wedi'i gyflogi neu a yw'n hunangyflogedig, a pha fath o gontract sydd ar waith

- **CPau hunangyflogedig** Yn debyg i asiantaethau, does dim angen i chi eu talu os nad ydyn nhw'n darparu gwasanaeth mwyach, fodd bynnag efallai y gofynnir i chi roi rhybudd â thâl pan fyddwch yn canslo'u gwasanaethau. Mae cyfnod y rhybudd y mae angen i chi ei roi i CP hunangyflogedig yn dibynnu ar delerau unrhyw gytundeb sydd gennych ag ef/hi. Os gwnaethoch lofnodi cytundeb gyda'ch CP hunangyflogedig ar ddechrau'ch trefniad, efallai bydd y contract hwnnw'n nodi cyfnod rhybudd. Fel arfer byddai angen i chi dalu'r person yn llawn ar gyfer y cyfnod rhybudd hwn, hyd yn oed os nad ydych am iddo weithio, oni bai fod y cytundeb yn nodi fel arall. Os nad oes gennych gontract ysgrifenedig ar waith, efallai y dewch o hyd i dystiolaeth o'ch cytundeb mewn llythyrau, e-byst neu ddogfennau eraill. Os yw'r CP yn wirioneddol hunangyflogedig, ac ni wnaed unrhyw gytundeb ynghylch cyfnod rhybudd, gallech derfynu'i wasanaeth ar unwaith a thalu am y gwaith a wnaed yn unig.
- **CPau Cyflogedig (oriau contract).** Mae Llywodraeth y Du yn disgwyl na fydd Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (absenoldeb ffyrlo) fel arfer yn cael ei ddefnyddio gan y sector cyhoeddus na sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus. Gan fod taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried fel arian cyhoeddus, os yw'r arian hwn yn parhau ni fydd hawl i chi gael absenoldeb ffyrlo. Mae Cyngor Abertawe wedi penderfynu na ddylid defnyddio absenoldeb ffyrlo yn ystod y cyfnod hwn ac felly mae wedi penderfynu parhau i ariannu'r holl daliadau uniongyrchol lle bo angen.  
  
O ganlyniad, i CPau sy'n gweithio oriau contract, bydd angen i chi barhau i'w talu'n llawn.
- **CPau sydd wedi'u cyflogi.** Ar gyfer CPau ar gontractau sero awr, bydd gwybod a oes angen i chi barhau i'w talu neu beidio yn dibynnu ar a yw'r CP yn gweithio oriau rheolaidd neu beidio ac, os felly, am faint mae'r CP wedi bod yn gweithio'r oriau hyn. Fy nghyngor i yw y dylech geisio cyngor cyfraith cyflogaeth ynghylch hyn.

### **C - Nid wyf am i fy CP weithio ar hyn o bryd; oes rhaid i fi ei dalu?**

Mae'n dibynnu ar a yw eich CP yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Cyfeiriau at yr wybodaeth uchod fel arweiniad. Os na fyddwch yn parhau i dalu'ch CPau yn llawn, efallai byddwch yn torri telerau'ch cytundeb neu gontract, neu o bosib yn torri hawliau cyfraith cyflogaeth

## **C - Oes modd rhoi tâl arferol i CP os oes angen iddo hunanyysu?**

- Yn gyfreithlon, diffinnir gweithwyr sy'n hunanyysu fel gweithwyr nad ydynt yn ddigon iach i fynd i'r gwaith. Felly, mae ganddynt hawl i beidio â mynd i'r gwaith am gyfnod o 14 diwrnod o'r diwrnod y daeth y symptomau i'r amlwg os oes gan rywun sy'n byw yn yr un aelwyd symptomau, neu 7 niwrnod os mai nhw eu hunain sy'n dioddef o'r symptomau, p'un bynnag yw'r hwyr. Gan nad yw'r gweithiwr yn cael ei ystyried yn ddigon iach i weithio, mae ganddo hawl i dâl salwch statudol (os yw'n gymwys) o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- Mae tâl salwch statudol yn daladwy i weithwyr sy'n: weithwyr (gan gynnwys gweithwyr sero awr a gweithwyr achlysurol) sydd wedi ennill cyflog o £118 yr wythnos ar gyfartaledd dros yr 8 wythnos diwethaf. Os nad yw'r gweithiwr yn gymwys, rhaid i chi roi ffurflen SSP1 iddo i esbonio pam, a fydd yn caniatáu iddo gyflwyno hawliad am fudd-daliadau.
- Ar gyfer CPau sydd yn y categori eithriadol o agored i niwed ac mae angen iddynt warchod nes 16 Awst, mae'r arweiniad yn debyg i sefyllfa lle mae'r cyflogwr yn penderfynu hunanyysu. Bydd Cyngor Abertawe yn parhau i dalu'r taliad uniongyrchol yn llawn ac felly, rydym yn eich cynghori i barhau i dalu'ch CPau ar gyfer eu horiau contract. Ni ellir defnyddio absenoldeb ffyrlo ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, lle bydd arian yn parhau, yn syml oherwydd caiff ei ystyried fel ailariannu.

## **C - Nid yw fy CP yn dymuno gweithio ar hyn o bryd; oes rhaid i mi barhau i'w dalu?**

Dyma gwestiwn anodd, ac rydym yn cynghori pob cyflogwr i geisio cyngor ac arweiniad unigol. Mae'r cyfan yn dibynnu ar y rheswm PAM nad yw'r CP am weithio

Yn y pen draw, mae CPau yn weithwyr allweddol a dylent barhau i weithio os yw'n bosib. Os ydynt yn dewis peidio â gweithio, mae angen iddynt gyfiawnhau pam nad ydynt yn gallu gwneud hyn. Os oes ganddynt reswm da dros beidio â gallu gweithio, er enghraifft mae angen iddynt warchod neu maent yn ofalwr anffurfiol ar gyfer rhywun sy'n gwarchod, dylid talu'r CP yn llawn. Byddai cyflogwr yn cael ei gynghori i fod yn drugarog yn y cyd-destun presennol ac yn rhesymol, gan ddangos cymaint o ddealltwriaeth â phosib.

Os nad yw'r CP am weithio a does ganddo ddim rheswm go iawn heblaw am y ffaith ei fod am fod yn ofalus, nid yw'r cyflogwr dan unrhyw rwymedigaeth i barhau i'w dalu. Mewn amgylchiadau arferol, byddai hyn yn dor-contract ac yn debygol o arwain at ddisgyblu. Mae amgylchiadau'n aml yn wahanol, felly rwy'n argymhell yn gryf eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol cyn gwneud penderfyniad.

## **C - Mae fy CP wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio i ofalu am ei deulu, oes unrhyw gymorth ar gael?**

Yn gynharach eleni, croesawom aelod newydd o staff i'r tîm. Nicola Rees yw ein cydlynnydd CP newydd a'i phrif rôl yw cefnogi pobl wrth recriwtio a hysbysebu, a hyrwyddo rôl y cynorthwy-ydd personol. Os bydd angen cefnogaeth recriwtio a hysbysebu arnoch, cysylltwch â'r Tîm Byw'n Annibynnol.

Efallai y gallwch gael cefnogaeth gan asiantaeth hefyd.

## **C - Os nad yw PA yn gallu cynnal plentyn oherwydd ei fod ef neu'r plentyn yn hunanynysu, a oes modd defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu aelod o'r teulu i ddarparu gofal?**

Oes, gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu aelod o'r teulu, fodd bynnag mae angen i'ch gweithiwr cymdeithasol awdurdodi hyn yn gyntaf. Wrth ddefnyddio taliad uniongyrchol i gyflogi aelod o'r teulu, mae angen i chi sicrhau o hyd bod y gyflogres yn cael gwybod a bod yr yswiriant cywir ar waith, yn ogystal â gwiriadau GDG. Os cytunir i aelod o'r teulu ddarparu cefnogaeth, cysylltwch â'r Tîm Byw'n Annibynnol a fydd yn gallu'ch cefnogi gyda hyn.

## **C - Beth os ydw i'n cael Coronafeirws - a oes modd i fy CP ddefnyddio PPE? Oes angen i ni dalu am hyn?**

Gall Cyngor Abertawe roi'r PPE angenrheidiol i'n holl dderbynwyr taliadau uniongyrchol.

- Os oes gennych chi neu rywun yn eich cartref symptomau COVID-19, p'un a ydych chi'n defnyddio asiantaeth neu'n cyflogi cynorthwy-ydd personol, gallwn roi ffedogau, menig a mygydau i chi.
- Os nad oes gan unrhyw un symptomau, ond rydych chi'n cyflogi cynorthwy-ydd personol sy'n eich cynorthwyo gyda gofal personol / tasgau ymarferol, gallwch brynu'ch PPE eich hunan drwy ddefnyddio'ch taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, os nad ydych yn gallu cael gafael ar unrhyw PPE, byddwn yn rhoi digon i chi ar gyfer y cyfnod anodd hwn.
- Os nad oes gan unrhyw un symptomau ac rydych chi'n defnyddio asiantaeth gofal cartref, dylai fod gan yr asiantaeth y PPE cywir. Fodd bynnag, cysylltwch â ni os nid felly y mae.

Os oes angen unrhyw PPE arnoch, ffoniwch ni ar 01972 636445 neu e-bostiwch [DPsupport@abertawe.gov.uk](mailto:DPsupport@abertawe.gov.uk)

## **C - Alla i dalu i fy CP deithio i'r gwaith mewn tacsï yn hytrach na defnyddio cludiant cyhoeddus?**

Yn debyg i unrhyw swyddi eraill, cyfrifoldeb y cynorthwy-ydd personol yw cyrraedd ei weithle a thalu costau teithio i wneud hynny. Nid oes angen i gyflogwyr dalu costau teithio eu gweithwyr i'w gweithle arferol.

## **C - Ydy hi'n bosib i mi ofyn i fy CP weithio oriau hirach, e.e. 30 awr ar y tro?**

Mae'r ateb i hwn yn gymhleth gan fod nifer o ffactorau i'w hystyried ymlaen llaw, megis a fyddai disgwyl i CP wneud unrhyw waith yn ystod y nos (shifft nos lle bydd y CP yn cysgu yn y gweithle neu shifft nos lle bydd ar ddiun ac yn gweithio), a fyddai'n gallu ymlacio heb unrhyw darfu yn ystod y dydd/nos lle mae'n rhydd i adael y cyfeiriad neu a fyddai angen iddo aros yn y cartref drwy'r amser? Nes i chi ateb cwestiynau o'r fath, bydd yn anodd iawn darparu ateb ac felly, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn gofyn am gyngor a gwybodaeth cyn caniatáu i'ch CP weithio am fwy o amser na'i shifft arferol.

Mae gan bob cyflogwr hawl gyfreithiol i gyfnod o orffwys di-dor, sy'n cynnwys cyfnod penodol o orffwys yn ystod y shiftt gwaith, seibiant dyddiol a seibiant wythnosol. Esbonnir y cyfnod o seibiant gofynnol isod:

- Cyfnod o seibiant yn y gwaith - 20 munud o seibiant di-dor os yw'n gweithio mwy na 6 awr y dydd.
- Seibiant dyddiol - 11 awr o seibiant di-dor rhwng diwrnodau gwaith
- Seibiant wythnosol - 24 awr o seibiant mewn wythnos /48 awr o seibiant dros bythefnos.

Mae Rheoliadau Amser Gwaith 1998 yn caniatáu i gyflogwyr, mewn amgylchiadau cyfyngedig, ofyn i weithwyr penodol weithio yn ystod cyfnodau a fyddai fel arfer yn gyfnod seibiant neu'n amser i orffwys. Os oes angen i weithiwr o'r fath weithio yn ystod cyfnod a fyddai fel arall wedi bod yn gyfnod seibiant neu gyfnod gorffwys, dylai'r cyflogwr, lle bo'n briodol, ganiatáu i'r gweithiwr gymryd cyfnod cyfwerth o seibiant cydadferol. I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor am hyn, cysylltwch â'ch darparwr yswiriant neu'r Tîm Byw'n Annibynnol.

### **C - Oes modd i fi dalu fy CP sy'n darparu cefnogaeth ddigyswllt neu gefnogaeth rithwir?**

Oes. Mae cefnogaeth rithwir yn dal i gael ei hystyried fel gwaith. Mewn gwirionedd, mae rhai canolfannau dydd yn darparu gweithgareddau ar-lein ac yn parhau i godi tâl am y gwasanaethau hyn, felly does dim rheswm dros beidio â pharhau i dalu eich CPau.

### **C - Ydy CPau yn cael eu hystyried fel gweithwyr allweddol?**

Ydynt, mae CPau yn cael eu hystyried fel gweithwyr allweddol.

Gall CPau gael gafael ar gerdyn gweithiwr allweddol drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Dyma gerdyn digidol sy'n cael ei storio ar ffonau clyfar ac sydd am ddim. Cysylltwch â'r Tîm Byw'n Annibynnol os hoffech wneud cais am gerdyn gweithiwr allweddol.

### **C - Rwy'n gweithio fel CP ac mae'r unigolyn rwy'n ei gynorthwyo wedi penderfynu hunanynysu gyda'i deulu a does dim angen fy nghefnogaeth arno. Oes modd i fi weithio fel CP i rywun arall?**

Gall CP gynorthwyo rhywun arall yn ystod y cyfnod hwn, fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod unrhyw CP sy'n ceisio cyflogaeth dros dro yn cael caniatâd ei gyflogwr presennol cyn gwneud hynny. Mae hefyd yn bwysig bod dyddiad dychwelyd yn cael ei gytuno gyda'r cyflogwr.

## **C - A fydd gan fy CP hawl i'r wobwr ariannol o £500 i ofalwyr a sut rydw i'n gwneud cais am hwn ar gyfer fy CP?**

A - Gallwch ddod o hyd i ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch y wobwr ariannol o £500 yma <https://llyw.cymru/cynllun-taliadau-arbennig-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol>. Caiff y taliad ei dalu'n uniongyrchol i'r cyflogwr gan Gyngor Abertawe. Ar hyn o bryd mae Cyngor Abertawe yn y broses o ysgrifennu at yr holl gyflogwyr taliadau uniongyrchol gyda gwybodaeth am sut i gael y wobwr ariannol ar gyfer eu CPau.

## **C Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer y bonws o £500 i ofalwyr, ydw i wedi ei golli?**

A. Mae Llywodraeth Cymru'n datgan y dylai cyflogwyr dalu eu staff cyn gynted â phosib, yn ddelfrydol erbyn diwedd mis Hydref 2020. Bydd Cyngor Abertawe yn anfon gwybodaeth at dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol cyn y dyddiad hwn.

## **C. Y broses gwneud cais am brawf COVID-19 ar gyfer cynorthwywyr personol.**

A. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gofyn i staff a'r cyhoedd cyffredinol **beidio** â gofyn am brawf gwrthgyrff nac ymweld ag unedau profi i geisio un. Ar hyn o bryd, mae'r profion hynny ar gael i staff y GIG yn unig.

Ond **gall** cynorthwywyr personol a gyflogir trwy daliadau uniongyrchol ofyn am brawf Coronafeirws os ydynt yn dangos symptomau'r cyflwr trwy raglen Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru.

### **Mae'r camau ar gyfer profi ac adrodd fel a ganlyn:**

1. Gofynnir i staff y mae angen prawf arnynt wneud cais am un trwy ffonio Canolfan Alwadau Profi Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe **ar 01639 862757**.
2. Pan fydd staff yn cysylltu â'r Ganolfan Alwadau
  - Bydd gofyn iddynt ddewis Opsiwn 1: I'r holl staff/weithwyr hanfodol drefnu i gael eu profi.
  - Caiff staff eu brysbennu gan y person ar y ffôn a chânt eu rhestru i'w profi gan yr Uned Profi Coronafeirws fel y bo'n briodol.
  - Dywedir wrthynt y bydd yr Uned Profi Coronafeirws yn cysylltu â nhw i drefnu dyddiad ac amser ar gyfer apwyntiad.

## Rhifau ffôn cyswilt a gwefannau defnyddiol

<b>Arweiniad Iechyd a Chanllawiau'r Llywodraeth</b>	
GIG Cymru	<a href="https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy">https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy</a> <a href="https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/">https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/</a>
Llywodraeth y DU	<a href="https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response">https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response</a>
Llywodraeth y DU (Taliadau Uniongyrchol)	<a href="https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-guidance-for-people-receiving-direct-payments/coronavirus-covid-19-qa-for-people-receiving-a-personal-budget-or-personal-health-budget#personal-protective-equipment-ppe">https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-guidance-for-people-receiving-direct-payments/coronavirus-covid-19-qa-for-people-receiving-a-personal-budget-or-personal-health-budget#personal-protective-equipment-ppe</a>
Gofal Cymdeithasol yng Nghymru	<a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/defnyddio-taliadau-uniongyrchol-mewn-ffordd-hyblyg-yn-ystod-y-pandemig">https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/defnyddio-taliadau-uniongyrchol-mewn-ffordd-hyblyg-yn-ystod-y-pandemig</a>
<b>Cyflogaeth ac Yswiriant</b>	
Mark Bates (Premier Care)	01476 514478 <a href="https://markbatesltd.com/products/home-employment-insurance">https://markbatesltd.com/products/home-employment-insurance</a>
FISH Insurance	0333 331 3770 <a href="https://www.fishinsurance.co.uk">https://www.fishinsurance.co.uk</a>
ACAS	0300 123 110 <a href="https://www.acas.org.uk">https://www.acas.org.uk</a>
<b>Cyflogres a Chyfrifon a Reolir</b>	
Compass	01823 282823 <a href="mailto:info@compassindependentliving.org.uk">info@compassindependentliving.org.uk</a>
<b>Cyllid Taliadau Uniongyrchol Cyngor Abertawe</b>	
Tîm Cyllid Taliadau Uniongyrchol	01792 636511 <a href="mailto:DPFinance@swansea.gov.uk">DPFinance@swansea.gov.uk</a>
<b>Swansea Social Services</b>	
Y Tîm Byw'n Annibynnol	01792 636445 <a href="mailto:DPSupport@swansea.gov.uk">DPSupport@swansea.gov.uk</a> <a href="mailto:Andrew.rose@swansea.gov.uk">Andrew.rose@swansea.gov.uk</a> (rheolwr)

Pwynt Mynediad Cyffredin (oedolion)	01792 636519 <a href="mailto:CAP@swansea.gov.uk">CAP@swansea.gov.uk</a>
Gwasanaethu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Blant a Theuluoedd	01792 635700 (Os yw eich achos yn agored i weithiwr cymdeithasol ffoniwch 01792 635180).
Tîm Dyletswydd Brys (y tu allan i oriau)	01792 775501